

## Ceisiadau ar gyfer *Test Bed*

Gwahoddir ceisiadau gan artistiaid sy'n datblygu ac artistiaid sefydledig sy'n awyddus i ddatblygu ac arddangos newidiadau yn eu harfer. Dylai artistiaid fod yn byw yng Nghymru neu'r Gororau.

### Y gofod

Mae gofod *Test Bed* yn fach eto'n addasadwy, ac mae'n mesur 158cm (ll) x 212cm (h) x 219cm (u). Mae lle i wneud amrywiaeth o waith yno, gan gynnwys fideos, gosodweithiau, cerflunwaith, gwaith sy'n seiliedig ar amser a gwaith ar waliau. Croesewir yn arbennig, gynigion sy'n defnyddio'r gofod mewn ffyrdd arbrofol a dychmygol ac sy'n arddangos newid neu brofiad gydag arfer artistig. Yn ogystal, mae *Test Bed* yn annog ceisiadau sy'n ceisio symud tu hwnt i gyfyngiadau'r Oriol ac sy'n ceisio defnyddio'r byd ehangach neu'r we i ymgysylltu gyda'r gynulleidfa.

### Y rhaglen

Fel arfer, caiff arddangosfeydd *Test Bed* eu dangos yn ystod yr un ffrâm amser a phrif raglen yr arddangosfa. Fodd bynnag, mae'n eithaf posib y gallai syniadau am brosiectau gwahanol ddatblygu ar wahân. Fel arfer, mae arddangosfeydd yn rhedeg am tua 8 wythnos.

### Ffioedd

Mae arddangoswyr llwyddiannus yn derbyn ffi am yr arddangosfa. Yn ogystal, bydd Oriol Davies Gallery yn cyhoeddi a'n marchnata'r arddangosfa 'Test Bed' ochr yn ochr â'r brif raglen, a bydd hefyd yn cynnig dehongliad a chymorth technegol i osod gwaith pan fo angen.

### I gymhwyso

Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd. Caniatewch hyd at dri mis i'ch gwaith i gael ei ystyried.

Anfonwch y canlynol drwy e-bost neu drwy'r post:

- CV cyfredol
- Datganiad o rhwng 200-300 gair - Yn cynnig sut fydddech chi'n defnyddio'r gofod a sut byddai'r cyfle hwn yn eich cynorthwyo chi i ddatblygu eich arfer.
- Dimensiynau'r gwaith arfaethedig
- 6 - 10 llun o'r gwaith
- Amlen â Chyfeiriad a Stamp i ddychwelyd lluniau (os yn gymwys)

*Test Bed*

Oriol Davies Gallery  
Y Parc, Y Drenewydd  
Powys, SY16 2NZ

Am ragor o wybodaeth, i anfon ceisiadau ac am ymholiadau, anfonwch e-bost at: [testbed@orioldavies.org](mailto:testbed@orioldavies.org)